OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3189

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002, a deuant i rym ar 1 Ionawr 2003.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau'r Gwasanaethau Fferyllol" ("*the Pharmaceutical Services Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992(**1**);

ystyr "Rheoliadau'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol 1992" ("*the General Medical Services Regulations 1992*" ) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(**1**) O.S. 1992/662; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1993/2451, 1994/2402, 1995/644, 1996/698, 1998/681 a 2224, 1999/696 a 2001/1396.

(**2**) O.S.1992/635; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1992/2412, 1993/2421, 1994/2620, 1997/981, 1999/1627 a 2000/1887.